**Claire Clancy**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Chief Executive and Clerk of the Assembly

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

9 Rhagfyr 2015

Annwyl Jocelyn

Mae'n bleser gennyf anfon Adroddiad diweddaraf Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol at y Pwyllgor Cyllid, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2015 a mis Medi 2015.

Mae fformat yr adroddiad wedi cael ei ddiweddaru i'w wneud yn fwy hygyrch ac eglur. Yn ogystal, mae rhai mesurau wedi cael eu gwella er mwyn adlewyrchu gweithgareddau'r Comisiwn yn well. Wrth wneud y newidiadau hyn, roeddem yn ymwybodol o ddymuniad y Pwyllgor i allu olrhain tueddiadau, felly rydym wedi sicrhau bod digon o barhad yn y mesurau.

Mae llawer o'r dangosyddion yn nodi bod pethau'n gwella o'u cymharu â'r un cyfnod y llynedd, a lle nad yw hynny'n digwydd, rydym yn cymryd camau i sicrhau gwelliannau. Mae crynodeb o'r prif bwyntiau ar dudalennau tri a phedwar yn yr adroddiad.

Gan fod y Comisiwn wedi cytuno i lunio'r adroddiad ddwywaith y flwyddyn, bydd yr adroddiad nesaf yn ymdrin â'r flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2015 i fis Mawrth 2016, sef adroddiad terfynol y Pedwerydd Cynulliad. Yna bydd y Comisiwn newydd, yna ystyried dyluniad, ffocws a chynnwys yr adroddiad ar gyfer y Pumed Cynulliad.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Claire.Clancy@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6230

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Claire.Clancy@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6230

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad parhau i fod o ddiddordeb ac o ddefnydd i'r Pwyllgor. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau gwe'r Comisiwn.

Yn gywir

Claire

**Claire Clancy**

**Prif Weithredwr a Chlerc/Chief Executive and Clerk**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales**